**PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO**

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 18 Mehefin, 2024..

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cynghorwyr P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, J.M. Norman, E. Penn a J. Protheroe

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), C.P. Franks, S.J. Haines, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) and M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr C.E.A. Champion, C. Iannucci-Williams (Is-Gadeirydd) a S.T. Wiliam.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2024 fel cofnod cywir, yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Driscoll wedi cynnig ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod dan sylw (ni dderbyniwyd y rhain mewn pryd i'w cynnwys yn y cofnodion perthnasol)

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. DATBLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2025-2030, ASESIAD PERFFORMIAD Y PANEL A CHALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2024/25 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Cyfeirio'r sylwadau / argymhellion canlynol gan y Pwyllgor i'r Cabinet i'w hystyried:

- Bod y Cyngor yn sicrhau bod y broses hunanasesu yn cyd-fynd cymaint â phosibl â'r safbwyntiau a fynegwyd drwy'r arolwg preswylwyr diweddar Dewch i Siarad am Fywyd yn y Fro.

- Ystyried y pryderon a'r risgiau posibl a godwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r hunanasesiad blynyddol a'r amserlen gysylltiedig ar gyfer ymgysylltu. Fel rhan o hyn, dylid ystyried ymagwedd fwy hyblyg at yr amserlen ymgysylltu, megis ymestyn yr hyd ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu, er mwyn sicrhau bod hyn yn ystyrlon ac yn gynrychioliadol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Sicrhau bod y Cabinet yn cael y cyfle i ystyried sylwadau / argymhellion y Pwyllgor fel rhan o'i ystyriaeth o'r adroddiad a sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y broses hon yn ogystal â sicrhau bod yr ymgynghoriad yn ddigon cadarn ac effeithiol.

EITEM AGENDA 5. CYFLWYNO DEISEB – GORUCHWYLWYR CROESFANNAU YSGOL (CAC) –

ARGYMHELLWYD – Cyfeirio'r sylw / argymhelliad canlynol gan y Pwyllgor i'r Cabinet i'w ystyried:

- Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r penderfyniad, fel yr amlinellwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor heno, na ddylid cymryd unrhyw gamau i gael gwared ar y patrolau croesfannau ysgol presennol hyd nes y bydd adolygiad wedi'i gynnal fel sy'n briodol i sicrhau diogelwch plant.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad, y sylwadau a wnaed gan y prif ddeisebydd, yn ogystal â'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (PW) –

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi'r cynnydd y manylwyd arno yn yr adroddiad ac Atodiad A mewn perthynas â'r heriau o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd a gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

(2) Nodi'r sgôr RAG ar gyfer cynnydd o fis Hydref 2023 i fis Mawrth 2024 yn Atodiad A i'r adroddiad.

(3) Nodi'r cyllid sydd ar gael mewn cronfeydd wrth gefn a'r prosiectau y dyfarnwyd arian iddynt hyd yma.

(4) Y dylid nodi'r Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol wedi'u diweddaru sy'n berthnasol i Brosiect Sero yn Atodiad B i'r adroddiad.

(5) Y dylid cyfeirio'r sylw canlynol i'r Cabinet, i'w ystyried ochr yn ochr ag unrhyw sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a fydd yn ystyried yr adroddiad hwn ar 19eg Mehefin, 2024:

- Y pryderon a godwyd ynghylch ‘pwysoli’ agenda Project Zero a phwysigrwydd gwneud Prosiect Zero yn ‘flaen ac yn ganolog’ yn y Cynllun Corfforaethol.

(6) Y dylid argymell i'r Cabinet fod yr adroddiad hwn yn cael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau Etholedig, aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1-4) O ystyried cynnwys yr adroddiad, ynghyd â'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(5) I'w ystyried gan y Cabinet fel rhan o'i ystyriaeth o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Cynllun Her Newid Hinsawdd.

(6) Er mwyn diweddaru'r holl Aelodau Etholedig a rhanddeiliaid eraill ar y trefniadau sydd yn eu lle i gyflawni Prosiect Sero.

EITEM AGENDA 7. BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD – DIRPRWY WEDI'I ENWEBU AR GYFER Y CYDBWYLLGOR CRAFFU (CAC) –

ARGYMHELLWYD -

(1) Bod y Cynghorydd Iannucci-Williams yn cael ei argymell i'r Cyngor fel y dirprwy enwebedig i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd - Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

(2) BOD y Cynghorydd Iannucci-Williams, y dirprwy a enwyd, â'r hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Craffu yn absenoldeb Cadeirydd Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd ac Adfywio.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad, ynghyd â'r trafodaethau yn y cyfarfod.